



3 Awst 2023

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Annwyl Huw

Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid, Pasbortau Anifeiliaid Anwes ac Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2023

Gwnes i'r ymrwymiad yn y Cyfarfod Llawn ar 4 Gorffennaf i ysgrifennu at y Pwyllgor yn amlinellu'r newidiadau rydyn ni wedi'u gwneud i Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid, Pasbortau Anifeiliaid Anwes ac Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2023 cyn eu cyflwyno. Gwnaed y newidiadau canlynol mewn perthynas â'r pwyntiau craffu a adroddwyd gan y Pwyllgor:

- Pwynt Craffu Technegol 1:** Mae rheoliad 3(2)(a) wedi ei gywiro yn y testun Saesneg drwy fewnosod “, in the appropriate places in alphabetical order” ar ôl “regulation 2”, ac wedi ei gywiro yn y testun Cymraeg drwy fewnosod “, yn y lleoedd priodol yn nhrefn yr wyddor” ar ôl “rheoliad 2”.
- Pwynt Craffu Technegol 2:** Mae'r rhagymadrodd wedi ei gywiro yn y testun Saesneg drwy ddileu'r geiriau (“the 1984 Act”) ar ôl “the Animal Health and Welfare Act 1984”, ac wedi ei gywiro yn y testun Cymraeg drwy ddileu'r geiriau (“Deddf 1984”) ar ôl “Ddeddf Iechyd a Lles Anifeiliaid 1984”.
- Pwynt Craffu Technegol 3:** Mae rheoliadau 2(5)(a) a (b) wedi eu cywiro yn y testun Saesneg drwy fewnosod "Column 2" a "Column 3" ym mhen y colofnau yn y rhes gyntaf ac wedi ei cywiro yn y testun Cymraeg drwy fewnosod "Colofn 2" a "Colofn 3".

- Pwynt Craffu Technegol 4: Yn y testun Saesneg yn unig, mae rheoliad 3(8)(a)(iii)(aa) wedi ei gywiro drwy fewnosod “, in the first place it occurs,”. Dim ond yn y testun Saesneg yr oedd angen y mewnosodiad hwn gan nad yw'r un mater yn codi yn y testun cyfatebol Cymraeg.
- Pwynt Craffu Technegol 5: Yn y testun Cymraeg a'r testun Saesneg mae'r dyfynodau cau yn rheoliad 3(11)(c) wedi eu symud i ddiwedd y rheoliad.
- Pwynt Craffu ar rinweddau 7: Mae'r pwerau galluogi y cyfeirir atynt yn y rhagymadrodd wedi eu cywiro. Yn y testun Saesneg mewnosodwyd "(1) and (3)(c)" ar ôl "section 10". Ac yn y testun Cymraeg mewnosodwyd "(1) a (3)(c)" ar ôl "adran 10".
- Pwynt Craffu ar rinweddau 8: Mae cyfeiriad at baragraff 12 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 wedi'i ychwanegu at y troednodyn perthnasol. Yn y testun Saesneg mewnosodwyd "Paragraph 1(8) of Schedule 7 applies to regulations under Schedule 4 by virtue of paragraph 12(3) of Schedule 7 to the 2018 Act." ar ddechrau'r troednodyn. Yn y testun Cymraeg, mewnosodwyd "Mae paragraff 1(8) o Atodlen 7 yn gymwys i reoliadau o dan Atodlen 4 yn rhinwedd paragraff 12(3) o Atodlen 7 i Ddeddf 2018." ar ddechrau'r troednodyn.

Ar yr un pryd, cywirwyd rhai materion mân iawn o ran drafftio a fformatio, a nodwyd yn anffurfiol gan gyfreithiwr y Senedd a chan y Cofrestrydd OS. Roedd y newidiadau hyn yn cynnwys cywiro fformatio yn y troednoddiadau, cywiro dau fân wall yn y troednoddiadau ac yn y Nodyn Esboniadol, a chywiro rhai mân wallau atalnodi (e.e. gosod hanner colon yn hytrach nag atalnod llawn ar ddiwedd is-baragraff).

Yn gywir



Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd